Ysgol Gynradd Gymunedol
Gymraeg Llantrisant

CRhA YGGG Llantrisant PTA

Cyfarfod Blynyddol – Annual General Meeting
13.05.19 – The Barn, Mwyndy – 20:00

Adroddiad y Cadeirydd

Yn gyntaf hoffwn nodi ei fod wedi bod yn flwyddyn hynod o lwyddiannus i'r GRhA gyda awyrgylch arbennig a chefnogaeth ardderchog gan y pwyllgor, gan rieni a ffrindiau a gan staff yr ysgol. Rwyn hynod o ddiolchgar i chi gyd ac heb eich ymroddiad chi, ni fyddwn yn gallu cyflawni yr hyn rydym yn gwneud er mwyn cefnogi addysg ein plant yn uniongyrchol. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Bydd manylion ariannol llawn yn cael ei rannu gan y Trysorydd ond hyd y gwn i rydym wedi codi swm anhygoel o arian eleni ac yn ogystal a hyn wedi llwyddo i wario arian sylweddol i gefnogi'r gweithgareddau addysgiadol yn yr ysgol. Rydym wedi llwyddo i ariannu offer Ystafell TG newydd i'r ysgol, wedi cyflwyno cit rygbi newydd i'r plant yn dilyn eu llwyddiant yng Nghwpan Cymru eleni, ac rydym wedi neilltuo swm ychwanegol o £5000 i un ochr i'r ysgol i wario ar brosiect weladwy a fydd o fudd i'r ysgol gyfan cyn diwedd y flwyddyn ysgol hon.

Fel y gallwch weld rwyn sicr bydd y plant yn cael budd mawr o fuddsoddiad y GRhA eleni ar draws yr ysgol.

Rydym wedi llwyddo i greu naws gymunedol a theuluol hollol unigryw yn ein gweithgareddau eleni ac yn sicr mae niferoedd y gefnogaeth wedi bod yn ardderchog. Dyma rai o'r achlysuron hynny:

Twmpath Teulu
Roedd Clwb Rygbi Pontyclun dan ei sang gyda dros 150 o blant yr ysgol, brodyr a chwiorydd, mamau a thadau a mamgu a thad-cu! Gyda chefnogaeth Wayne Owen a thafarn y Boar's Head wrth noddi a choginio'r cawl, daeth Dawnswyr Caerdydd i ddawnsio a'n harwain mewn noson oedd yn llawn o hwyl a 'sbri.

Ffair Nadolig
Gyda stondinau diri, gemau, bwyd cynnes a gwin mwll roedd y ffair eleni eto dan ei sang. Rwyn siwr fod ein ymwelydd gwadd, Sion Corn, wrth ei fodd wrth weld yr holl blant (a'u rhieni!) yn mwynhau naws arbennig y Nadolig.

Carolau a Chraclin'
Mae'r prynhawn erbyn hyn yn achlysur selog yn ein dyddiadur yn flynyddol. Daeth dros 250 i gefnogi'r gyngerdd Nadoligaidd yn Eglwys All Hallows, Meisgyn a chawsom ymweliad gan ddisgyblion Uwchradd Ysgol Llanhari i ychwanegu at yr achlysur. Roedd gwledd o fochyn rhost a gwin mwll a digon o gymdeithasu yn neuadd yr eglwys yn dilyn y gyngerdd.

Cawsom hefyd ein disgos flynyddol adeg Calan Gaeaf a Santes Dwynwen. Dyma flas o'r gweithgareddau sydd yn digwydd dros y tymor yma:

YGŵyl
Yn ddigwyddiad i'r gymuned gyfan rydym yn disgwyl dros 1,000 o bobl i fwynhau corau, bandiau ac unigolion yn ein diddanu ar gaeau Clwb Rygbi Pontyclun gydag arlwy ardderchog o fwyd a diod, ffair a stondinau ar ddydd Sadwrn 18 Mai. Diolchwn yn arbennig i JDJ Exhibitions am ei gefnogaeth ac edrychwn ymlaen at y digwyddiad yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf!

Noson o fowlio i'r tadau
Bydd noson o sbort a sbri ym machlud haul Treorci gyda'r tadau yn arddangos eu sgiliau bowlio...yn ogystal ac yfed ambell fotel o seidr! Dyddiad hwn ar hyn o bryd yw'r 5ed o Orffennaf.

Dawns Fawreddog yr Haf
Cynhelir y Ddawns eleni eto yn ngwesty Radisson Blu, Caerdydd, ar nos Sadwrn y 13eg o Orffennaf ac edrychwn ymlaen at noson lwyddiannus iawn gydag ocsiwn, raffl fawreddog, a noson llawn o adloniant!

Gadael...
Ar ol cyfnod o wasanaeth di-flino rydym yn gweld ein trysorydd, David Hulse, ein ysgrifennydd, Anne Miles a'n swyddog cyfathrebu, Richard Williams yn cymryd cam yn ol. Hoffwn ddiolch iddynt yn ddiffuant am eu gwaith arbennig a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Yn ogystaf byddaf hefyd yn gadael fy swydd fel Cadeirydd. Roedd yn bleser i wasanaethu'r Gymdeithas am nifer o flynyddoedd a hoffwn feddwl bod y pwyllgor gyfredol wedi gadael gwaddol ar ein hol!

Felly mae'r flwyddyn wedi dod i ben... Mae nifer o bethau cyffrous iawn yn y dyddiadur ar gyfer blwyddyn nesaf felly diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu eleni ac edrychwn ymlaen fel pwyllgor at eich cefnogaeth eto dros y flwyddyn i ddod.

Tim Edwards
Cadeirydd
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

CRhA YGGG Llantrisant PTA

Cyfarfod Blynyddol – Annual General Meeting
13.05.19 – The Barn, Mwyndy – 20:00

Chairman's Report

Firstly I would like to note how successful a year we've had this year as a PTA. The atmosphere has been excellent and the support from the committee, from parents and friends and from staff at the school has been phenomenal. I'm extremely grateful to you all as, without your commitment, we would not be able to achieve half of what we have in order to directly support our children's education. Thank you all very much.

The Treasurer will share the detail however I can say that we've raised a tremendous amount of money this year that has allowed us to significantly support the educational activities in the school. We have bought equipment for the IT Suite at the school, have presented the school with some new rugby kit in preparation for the team's excellent win in the National Schools Cup which will also benefit the teams in years to come, and have earmarked an additional spend of £5000 in this academic year for the school to pursue a project that will benefit the school as a whole.

As I'm sure you'll agree the children and staff all across the school will benefit greatly from this year's investment from the PTA.

I believe that this year we have achieved an unique community and family atmosphere at all of our events and the supporting numbers have been outstanding. I'll outline just a few of those events below:

Family Twmpath
Over 150 people including school children, their brothers and sisters, mums and dads and grandmothers and grandfathers attended the event at Pontyclun RFC. With the Wayne Owen from the Boar's Head pub cooking the cawl and supporting the event, Dawnswyr Caerdydd entertained us and taught us some folk dances during an evening full of family fun.

Carols & Crackling
By now a regular event in the PTA calendar....! Over 250 people came to support our Christmas spectacular at All Hallows Church, Miskin, and enjoyed a feast of Hog Roast, mulled wine and socialising in the church hall afterwards. Ysgol Llanhari Senior choir also joined in the festivities for the first time this year.

Christmas Fair
With an array of stalls, games, hot food and mulled wine the annual Christmas Fair was packed to the rafters once again. I'm sure that our special guest, Father Christmas, was over the moon seeing so many children (and their parents!) enjoying the wonderful Christmas feeling.

YGŵyl Community Festival
More than 1,000 people are expected to attend this community event throughout the day on Saturday 18 May to enjoy entertainment from choirs, bands and individuals with fairground rides, stands and wonderful food 'n drink whilst basking in the glorious sunshine (we hope!) on the fields at Pontyclun RFC. A special thank you to JDJ Exhibitions for their support and I look forward to this event growing and growing over the coming years!

Dads' Bowling night
A lot of fun will be had on Friday the 5th of July in the setting Treorchy sun as the dads show off their crown green bowling skills...as well as drinking the odd bottle of cider! The friendly atmosphere and true school family feeling really makes this night a huge annual success.

Grand Summer Ball
With a new venue and a new format for last year's Summer Ball being most certainly a roaring success we repeat the event again this year at the Radisson Blu Hotel, Cardiff on 13 July. It's set to be a great night with an auction, grand raffle and plenty of entertainment!

Along with our regular children's discos and other fundraising initiatives you'll notice that it's been an extremely busy year and indeed an extremely successful year. Thank you all very much, once again.

Leaving...
After a number of years committed service to the PTA this year sees our Treasurer, David Hulse, our Secretary, Anne Miles and our Communications Officer, Richard Williams stepping down from their committee roles. I'd like to thank them for their never failing commitment and enthusiasm and support without which the successes of recent years would not have been possible.

I too will step down as Chair at the end of the Summer term. It's been a pleasure to serve the pupils and parents of the school in leading such a great PTA and I'm pretty sure that the present committee are leaving a fine legacy!

So, the year comes to an end... There are many exciting things already in the diary for next year so I would like to thank everyone for their contribution this year and look forward to your support during the coming year.

Tim Edwards
Chairman
Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant Parent Teacher Association